AROLWG TEITHIO CENEDLAETHOL CYMRU

WALES NATIONAL TRAVEL SURVEY

Ffactorau i annog newid i ddulliau teithio cynaliadwy: prif ganlyniadau, 2025/26

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu detholiad o ganlyniadau o'r deuddeg mis cyntaf o gasglu data ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025/26 (ATCC). Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar dros 6,100 o ymatebion gan bobl ledled Cymru. Mae'r data hyn yn ystadegau swyddogol sy'n cael eu datblygu.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gwestiynau am newid moddol. Yn hyn o beth, rydym yn golygu beth fyddai'n annog ymatebwyr sy'n defnyddio - neu ddim yn defnyddio - rhai dulliau teithio penodol i'w defnyddio'n amlach, yn ogystal â'r rhesymau pam mae ymatebwyr yn dewis teithio mewn car.

Am wybodaeth am sut rydym yn diffinio defnyddwyr a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr, gweler ein dogfen diffiniadau.

Roedd opsiynau ymateb yn wahanol rhwng pob dull fel eu bod yn berthnasol ac yn benodol i'r dull hwnnw o deithio. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am yr opsiynau ymateb a ddarperir yn y sgript holiadur.

Mae'r ATCC yn arolwg newydd, a'r arolwg teithio cenedlaethol cyntaf i Gymru ers 2012. Dylid cymryd gofal wrth ystyried y canlyniadau ochr yn ochr â ffynonellau data eraill. Gallai gwahaniaethau fod oherwydd gwahanol ddiffiniadau a ddefnyddir, methodolegau arolwg gwahanol, neu wahaniaethau gwirioneddol mewn ymddygiad teithio. Mae'r cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar flwyddyn gyntaf yr arolwg, gyda data wedi'i gasglu o sampl o fis Mawrth 2025 i Chwefror 2026. Mae gwybodaeth am ansawdd i'w gweld yn ein hadroddiad ansawdd.

Prif ganfyddiadau

- "Llwybrau wedi'u cynnal yn well" (37.7%) oedd y ffactor mwyaf cyffredin a fyddai'n annog defnyddwyr i gerdded neu olwynio yn amlach.
- Ymatebodd 46.9% o ddefnyddwyr beiciau y byddai "mwy o lwybrau heb draffig" yn eu hannog i deithio ar feic yn amlach.
- Byddai 40.7% o ddefnyddwyr bysiau yn cael eu hannog i deithio ar fws yn amlach pe bai "gwell gwybodaeth am lwybrau, arosfannau bws ac amseru".
- Nododd 60.2% o ddefnyddwyr rheilffyrdd "tocynnau rhatach, symlach" fel ffactor a fyddai'n annog mwy o deithio ar y rheilffordd.
- Ymhlith y rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr, dywedodd dros 30% o'r ymatebwyr na fyddai unrhyw un o'r opsiynau a restrir yn eu hannog i gerdded, olwynio, beicio neu deithio ar fws, trên neu tacsi.

Nodyn ar y data

Amcangyfrifon yw'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ac yn y tablau ategol, sy'n seiliedig ar ymddygiad a barn ymatebwyr. Mae'r data wedi cael ei bwysoli i gynrychioli poblogaeth oedolion Cymru.

Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon hyn. Mae'r lefel hon o ansicrwydd yn fwy ar gyfer grwpiau llai a dulliau teithio llai cyffredin. Er enghraifft, mae amcangyfrifon ar gyfer de-ddwyrain Cymru yn seiliedig ar 2,825 o ymatebwyr, o'i gymharu â 665 o ganolbarth Cymru, sy'n golygu bod mwy o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon ar gyfer canolbarth Cymru. Fodd bynnag, mae'r arolwg yn dal i ddarparu amcangyfrifon rhesymol ar gyfer y grwpiau llai hyn o'r boblogaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am gywirdeb a manylder yr amcangyfrifon hyn ar gael yn adran Cywirdeb yr Adroddiad Ansawdd.

Ar gyfer rhai cwestiynau, gallai ymatebwyr ddewis hyd at dri opsiwn, felly efallai na fydd y cyfansymiau'n hafaldod i 100%.

Ffactorau a fyddai'n annog cerdded ac olwynio

Cerddwyr ac olwynio

- Y ffactor mwyaf poblogaidd a fyddai'n annog mwy o bobl i gerdded ac olwynio oedd "llwybrau wedi'u cynnal yn well" (37.7%), ac yna "llai o rwystrau megis ceir wedi'u parcio ar lwybrau" (31.5%) a "llwybrau mwy dymunol" (29.4%).

Pobl nad ydynt yn cerdded neu olwynio

- Nododd 29.7% o'r ymatebwyr nad oeddent yn cerdded neu'n olwynio na fyddai unrhyw un o'r ffactorau a restrir yn eu hannog i ddefnyddio'r modd. Dyma'r ymateb a ddewiswyd amlaf.
- Nododd 26.6% arall nad oeddent yn gallu cerdded neu olwynio fel dull teithio fwy aml.
- Dewiswyd "llwybrau wedi'u cynnal yn well", y ffactor mwyaf cyffredin ar gyfer cerddwyr ac olwynio, gan ddim ond 14.1% o bobl nad ydynt yn cerdded neu olwynio fel ffactor a fyddai'n eu hannog i gerdded neu olwynio.

Beth fyddai'n annog pobl i gerdded neu olwynio

Ffigur 1: Ffactorau a fyddai'n annog cerdded ac olwynio, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 1: Siart bar llorweddol sy'n dangos y ffactorau a fyddai'n annog pobl i gerdded neu olwynio yn amlach. Yr ymateb mwyaf cyffredin ar gyfer cerddwyr ac olwynio oedd "llwybrau wedi'u cynnal yn well" (37.7%), tra bod yr ymatebion mwyaf cyffredin ar gyfer pobl nad oeddent yn cerdded nac yn olwynio oedd "dim o'r rhain" (29.7%) ac nad oeddent yn gallu cerdded neu olwynio yn fwy aml (26.6%).

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, ffactorau i annog newid moddol i ddulliau teithio cynaliadwy

Nodyn 1: Yn seiliedig ar yr amlder teithio a ddisgrifiwyd gan yr ymatebwyr, nodwyd 4,860 (81.4%) o unigolion fel cerddwyr ac olwynio. Nodwyd 1,225 (17.9%) fel rhai nad oeddent yn cerdded neu'n olwynio.

Ffactorau a fyddai'n annog seiclo

Beicwyr

- Ymhlith seiclwyr, dywedodd 46.9% o'r ymatebwyr y byddai "mwy o lwybrau heb draffig" yn annog defnydd pellach. Dewiswyd "llwybrau wedi'u cynnal yn well" gan 39.0% o feicwyr, ac yna "storfa beic ddiogel yn y cyrchfan" (24.2%).

Pobl nad ydynt yn feicwyr

- Ymatebodd 30.8% o bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr na fyddai unrhyw un o'r ffactorau hyn yn eu hannog i feicio. Nododd 24.5% arall nad ydynt yn gallu beicio fel dull teithio yn fwy aml.
- Nododd 22.9% o bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr y byddai "mwy o lwybrau heb draffig" yn eu hannog i seiclo, gyda "llwybrau wedi'u cynnal yn well" (15.9%) a "llai o draffig, neu draffig arafach" (11.3%) hefyd yn ffactorau a ddewiswyd yn gyffredin.
- Roedd "mynediad at gynllun llogi beiciau" neu "gymorth i brynu beic" yn ffactorau llai cyffredin ymhlith nad oeddent yn ddefnyddwyr (10.2%) na defnyddwyr (13.4%).

Beth fyddai'n annog pobl i seiclo

Ffigur 2: Ffactorau a fyddai'n annog pobl i feicio, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 2: Siart bar llorweddol sy'n dangos y ffactorau a fyddai'n annog defnyddwyr a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr i feicio yn amlach. Yr ymateb mwyaf cyffredin i ddefnyddwyr oedd "mwy o lwybrau heb draffig" (46.9%), tra bod yr ymatebion mwyaf cyffredin i bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr oedd "dim o'r rhain" (30.8%) a "methu defnyddio beic yn fwy aml" (24.5%).

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, ffactorau i annog newid moddol i ddulliau teithio cynaliadwy

Nodyn 1: Yn seiliedig ar yr amlder teithio a ddisgrifiwyd gan ymatebwyr, nodwyd 1,085 (19.5%) o unigolion fel beicwyr a nodwyd 4,840 (76.8%) fel rhai nad oeddent yn feicwyr.

Ffactorau a fyddai'n annog defnydd o fysiau

Defnyddwyr bysiau

- "Gwell gwybodaeth am deithiau, arosfannau bws ac amserau" (40.7%) oedd y ffactor a ddewiswyd fwyaf parthed beth a fyddai'n annog defnyddwyr i ddefnyddio'r bws yn amlach.
- "Roedd gwasanaethau amlach, gan gynnwys yn ystod adegau tawelach o'r dydd" (34.3%), "tocynnau rhatach, symlach" (33.9%) a "gwell dibynadwyedd a/neu brydlondeb" (33.5%) hefyd yn ffactorau a ddewiswyd yn gyffredin ymhlith defnyddwyr.
- Nid oedd ffactorau a fyddai'n annog teithiau amlfoddol yn cael eu dewis yn gyffredin gan ddefnyddwyr, gyda "gwell cysylltiadau cerdded, olwynio neu feicio â gwasanaethau bysiau" a "gwell integreiddio â dulliau trafnidiaeth eraill" wedi'u dewis gan 4.7% a llai na 0.5% o ddefnyddwyr yn y drefn honno.

Pobl nad sydd yn teithio ar fws

- Dewisodd 29.3% o bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr na fyddai unrhyw un o'r ffactorau a restrir yn eu hannog i deithio ar fws.
- Ymhlith ffactorau eraill, ymatebodd nad oeddent yn ddefnyddwyr yn debyg i ddefnyddwyr bysiau. "Gwell gwybodaeth am deithiau, arosfannau bws ac amserau" (28.9%) a "tocynnau rhatach, symlach" (24.7%) oedd yr opsiynau eraill a ddewiswyd.
- Rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol oedd un o'r opsiynau ymateb a ddewiswyd lleiaf, sef llai na 0.5% o'r ymatebwyr ar gyfer defnyddwyr a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr.

Beth fyddai'n annog pobl i deithio ar fws

Ffigur 3: Ffactorau a fyddai'n annog pobl i deithio ar fws, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 3: Siart bar llorweddol sy'n dangos y ffactorau a fyddai'n annog pobl i deithio ar fws. Yr ymateb mwyaf cyffredin i ddefnyddwyr oedd "gwell gwybodaeth am deithiau, arosfannau bws ac amserau" (40.7%), tra mai'r ymatebion mwyaf cyffredin ar gyfer pobl nad ydynt yn ddefnyddwyr oedd "dim un o'r rhain" (29.3%), ac yna "gwell gwybodaeth am deithiau, arosfannau bws ac amserau" (28.9%).

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, ffactorau i annog newid moddol i ddulliau teithio cynaliadwy

Nodyn 1: Yn seiliedig ar yr amlder teithio a ddisgrifiwyd gan ymatebwyr, nodwyd 3,080 (50.5%) o unigolion fel defnyddwyr bysiau a nodwyd 2,770 (44.4%) fel rhai nad oeddent yn ddefnyddwyr.

Nodyn 2: Ni ofynnwyd i ymatebwyr nodi pa wasanaeth bws neu weithredwr a ddefnyddiwyd ganddynt.

Ffactorau a fyddai'n annog defnydd o reilffyrdd

Defnyddwyr rheilffyrdd

- "Tocynnau rhatach, symlach" oedd y ffactor a fyddai'n annog defnyddwyr rheilffyrdd i deithio ar y trên yn amlach, a ddewiswyd gan 60.2% o ddefnyddwyr.
- Dewisodd 35.1% o ddefnyddwyr "gwell dibynadwyedd" fel ffactor a fyddai'n annog defnydd pellach, gyda 29.3% o ddefnyddwyr yn dewis "mwy o wasanaethau, gan gynnwys y tu allan i oriau brig ".
- Yn wahanol i deithio ar y bws, roedd datblygu "gwell cysylltiadau â gorsafoedd trwy gerdded ac olwynio, bysiau, a beicio" yn ffactor mwy poblogaidd a fyddai'n annog defnydd ychwanegol i ddefnyddwyr (18.2%).

Pobl nad ydynt yn defnyddio'r rheilffyrdd

- "Tocynnau rhatach, symlach" (39.4%) oedd y ffactor a ddewiswyd fwyaf cyffredin a fyddai'n annog pobl nad ydynt yn ddefnyddwyr i deithio ar y rheilffordd, gan ddangos thema gyffredin ymhlith defnyddwyr a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr.
- Fel gyda dulliau eraill, nododd cyfran fawr o bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr (33.9%) na fyddai unrhyw un o'r ffactorau a restrir yn eu hannog i deithio ar y rheilffordd.
- Dewiswyd "gorsaf yn agosach at le rwy'n byw" gan 17.8% o ddefnyddwyr nad ydynt yn teithio ar reilffyrdd.

Beth fyddai'n annog pobl i deithio ar y trên

Ffigur 4: Ffactorau a fyddai'n annog pobl i deithio ar y rheilffordd, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 4: Siart bar llorweddol sy'n dangos y ffactorau a fyddai'n annog pobl i deithio ar y trên. Yr ymateb mwyaf cyffredin i ddefnyddwyr a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr oedd "tocynnau rhatach, symlach" (60.2% a 39.4% yn y drefn honno).

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, ffactorau i annog newid moddol i ddulliau teithio cynaliadwy

Nodyn 1: Yn seiliedig ar amlder teithio a ddisgrifiwyd gan yr ymatebwyr, nodwyd 3,820 (65.6%) o unigolion fel defnyddwyr rheilffyrdd a nodwyd 2,135 (31.1%) fel rhai nad oeddent yn ddefnyddwyr.

Nodyn 2: Ni ofynnwyd i ymatebwyr nodi pa wasanaeth rheilffordd neu weithredwr trenau a ddefnyddiwyd ganddynt.

Ffactorau a fyddai'n annog defnyddio tacsi

Defnyddwyr tacsi

- “Prisiau rhatach” oedd y ffactor a fyddai'n annog defnyddwyr tacsi i deithio mewn tacsi yn amlach, a ddewiswyd gan 65.8% o ddefnyddwyr.
- Dewisodd 22.5% o ddefnyddwyr "well dibynadwyedd" fel ffactor a fyddai'n annog defnydd pellach, gyda 17.6% o ddefnyddwyr yn dewis "dim un o'r rhain".

Pobl nad ydynt yn ddefnyddwyr tacsi

- " Prisiau rhatach" (46.0%) oedd y ffactor a ddewiswyd fwyaf cyffredin a fyddai'n annog pobl nad ydynt yn ddefnyddwyr i deithio mewn tacsi, gan ddangos thema gyffredin ymhlith defnyddwyr a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr.
- Fel gyda dulliau eraill, nododd cyfran fawr o bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr (38.8%) na fyddai unrhyw un o'r ffactorau a restrir yn eu hannog i deithio mewn tacsi.
- Dewiswyd "gyrwyr mwy croesawgar" a "gwell dibynadwyedd" gan 11.8% ac 11.2% o ddefnyddwyr nad ydynt yn defnyddio tacsis, yn y drefn honno.

Beth fyddai'n annog pobl i deithio mewn tacsi

Ffigur 5: Ffactorau a fyddai'n annog pobl i deithio mewn tacsi, Cymru 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 5: Siart bar llorweddol sy'n dangos y ffactorau a fyddai'n annog pobl i deithio mewn tacsi. Yr ymateb mwyaf cyffredin i ddefnyddwyr a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr oedd "prisiau llai drud" (65.8% a 46.0% yn y drefn honno).

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, ffactorau i annog newid moddol i ddulliau teithio cynaliadwy

Nodyn 1: Yn seiliedig ar amlder teithio a ddisgrifiwyd gan ymatebwyr, nodwyd 3,065 (52.0%) o unigolion fel defnyddwyr tacsis a nodwyd 2,975 (46.4%) fel rhai nad oeddent yn ddefnyddwyr.

Rhesymau pam y teithiodd ymatebwyr mewn car

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd wedi teithio mewn car o leiaf unwaith bob deufis pam eu bod wedi dewis teithio mewn car. Gofynnwyd hyn i bobl sydd eisoes yn defnyddio car i ddeall pam eu bod yn dewis teithio mewn car.

- Dewisodd 49.7% o'r ymatebwyr a deithiodd mewn car wneud hynny oherwydd mai'r opsiwn oedd yn cynnig taith uniongyrchol.
- Dewisodd 38.8% deithio mewn car gan eu bod yn teimlo mai dyma'r opsiwn mwyaf dibynadwy, a dewisodd 33.1% deithio mewn car gan mai dyma'r opsiwn rhataf.

Pam y dewisodd pobl deithio mewn car

Ffigur 6: Rhesymau dros ddewis teithio mewn car, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 6: Siart bar llorweddol sy'n dangos pam fod ymatebydd wedi teithio mewn car. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd "taith f mwyaf uniongyrchol" (49.7%)

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, rhesymau dros deithio mewn car

Nodyn 1: Yn seiliedig ar yr amlder teithio a ddisgrifiwyd gan ymatebwyr, gofynnwyd y cwestiwn hwn i 5,505 (89.9%) o ymatebwyr.